

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

200
1822 - 2022

# DYSGU SEILIEDIG AR WAITH LEFEL DAU, TRI A PHEDWAR

Dyfarniad Lefel Dau mewn Gwybodeg Iechyd
Diploma Lefel Tri mewn Gwybodeg Iechyd
Tystysgrif Lefel Pedwar mewn Gwybodeg Iechyd

colegsirgâr

Agored Cymru

# CYNNWYS


**4** **Cymwysterau mewn Gwybodeg Iechyd  Datblygwyd gan IGDC**

Beth yw Dysgu Seiliedig ar Waith?

Ynglŷn â'r rôl

**7** **Dyfarniad Lefel 2 mewn Gwybodeg Iechyd**

Prif Nodweddion

Modiwlau

**8** **Dyfarniad Lefel 3 mewn Gwybodeg Iechyd**

Prif Nodweddion

Modiwlau Opsiynol

**10** **Dyfarniad Lefel 4 mewn Gwybodeg Iechyd**

Prif Nodweddion

Banc Modiwlau

# Cymwysterau mewn Gwybodeg Iechyd Datblygwyd gan IGDC



Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau cyllid ar gyfer dysgu Addysg Bellach seiliedig ar bortffolio a gyflwynir yn y gweithle ar gyfer y rheiny sy'n astudio ar Lefelau 2, 3 a 4.

## Beth yw Dysgu Seiliedig ar Waith?

Mae Coleg Sir Gâr, sy'n rhan o Grŵp PCYDDS, mewn partneriaeth ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC), wedi datblygu portffolio o gymwysterau sy'n gyfan gwbl ar-lein y gellir eu hastudio unrhyw le yng Nghymru ac sy'n cael eu tanategu gan brofiadau gwaith go iawn.

Caiff pob dysgwr ei gefnogi trwy amserlen wythnosol ddisgybledig, e-bost a chynhadledd fideo.

Mae'r cwrs yn hynod o hyblyg oherwydd gellir astudio tasgau gosod unrhyw adeg yn ystod amserlen yr wythnos.

Mae Dysgu Seiliedig ar Waith yn ffordd wych o ddysgu a gwella sgiliau y gellir eu cymhwyso yn y gweithle.

Rhaid i chi fod yn gyflogedig mewn rôl addas lle gallwch ddangos tystiolaeth o sgiliau newydd a ddatblygwyd ar y cymhwyster a rhai sy'n bodoli eisoes.

Oherwydd natur y gefnogaeth ar-lein sy'n cael ei darparu, gall cofrestriadau ddigwydd 50 wythnos y flwyddyn.

**Ynglŷn â'r rôl:**

Mae Gwybodeg Iechyd yn ddisgyblaeth ddatblygol o fewn gofal iechyd.  Fodd bynnag, mae cofnodi a chyfathrebu gwybodaeth bob amser wedi bod yn hanfodol i ymarfer gofal iechyd.  Mae sefydlu Gwybodeg Iechyd fel proffesiwn cydnabyddedig ym maes iechyd a gofal wedi bod yn ganolog i'r strategaeth datblygu gwybodeg genedlaethol am y 10 mlynedd ddiwethaf.

Amcangyfrifir bod yna fwy na 3,000 o bobl yn gweithio mewn rolau gwybodeg yn y GIG yng Nghymru.  Bellach mae yna gymwysterau i gefnogi rolau Gwybodeg Iechyd ar Lefelau Fframwaith Gyrfa 2, 3 a 4. Ystyrir bod Dysgu Seiliedig ar Waith yn allweddol i gefnogi recriwtio a chadw staff ar y lefel hon o'r proffesiwn ac i ddarparu'r cam cyntaf ar lwybr gyrfa.

Cytunir yn gyffredinol ar y diffiniad canlynol i grynhoi cwmpas gwybodeg iechyd, "The knowledge, skills and tools which enable information to be collected, managed, used and shared to support the delivery of healthcare and to promote health" (NHS Careers, 2011).



## DATRYSIADAU GWEITHLU

**Dyfarniad Lefel 2**

Cwrs 6 mis wedi'i anelu at y rheiny sydd naill ai am symud ymlaen i rôl ym maes data meddygol neu sy'n newydd iawn i rôl o'r fath.

**Diploma Lefel 3**

Cwrs 18 mis wedi'i anelu at y rheiny sydd â phrofiad o weithio mewn rôl sy'n ymwneud â data meddygol.


**Tystysgrif Lefel 4**

Cwrs 18 mis wedi'i anelu at y rheiny sy'n gweithio ym maes Gwybodeg Iechyd ac sydd â rôl mewn dylunio systemau a/neu raglennu systemau data meddygol.

Agored Cymru

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd a Gofal Digidol Cymru Digital Health and Care Wales

Mae Gwybodeg Iechyd yn ymwneud â defnyddio data, gwybodaeth a thechnoleg yn effeithiol i gefnogi a gwella darpariaeth iechyd a gofal iechyd. Fel proffesiwn, mae Gwybodeg Iechyd yn cynnwys pobl sy'n gweithio mewn amrywiaeth eang o rolau, sydd wedi'u grwpio gyda'i gilydd i saith disgyblaeth:




Mae gwybodeg mewn iechyd a gofal yn dod yn broffesiwn cynyddol bwysig wrth i wybodaeth a systemau TGCh ddod fwy a mwy yn rhan o'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a'u cefnogi.

Ymgymerir â gwaith i fireinio a diffinio rolau o fewn Gwybodeg Iechyd yn barhaus ac i ddatblygu'r cymwysterau sydd eu hangen i gefnogi cymhwysedd galwedigaethol yn y rolau hynny. Gellir cael mwy o wybodaeth am Fframwaith Gyrfa Gwybodeg Iechyd yn **https://www.hicf.org.uk**

Mae polisi'r Llywodraeth ym maes iechyd a gofal yn canolbwyntio ar yr angen am "chwyldro gwybodaeth" sy'n darparu cymhelliant pellach i hybu gwybodaeth a sgiliau gwybodeg ar draws y gweithlu.

Yn bwysig iawn, mae hyn yn effeithio ar gapasiti a gallu arbenigwyr gwybodeg i gefnogi a galluogi ffyrdd newydd o weithio. Mae sefydlu llwybrau gyrfa a chymwysterau mewn gwybodeg iechyd yn elfen ganolog o bolisi gwybodeg.

Yn draddodiadol mae pobl wedi tueddu symud i mewn i Wybodeg Iechyd o feysydd eraill ym maes iechyd e.e. gweinyddiaeth.

Datblygwyd y Cymhwyster hwn i ddarparu llwybr mynediad uniongyrchol i ddisgyblaeth gwybodeg iechyd ar gyfer pobl sydd ag ychydig neu ddim profiad o'r sector iechyd neu wybodeg. Gall arwain at yrfa gyffrous a boddhaus.

# Level 2 Award in Health Informatics



Mae'r cymhwyster hwn yn berffaith ar gyfer y rheiny sydd am ddatblygu gyrfa mewn rôl sy'n cefnogi data meddygol neu sydd newydd gychwyn ar rôl newydd mewn maes o'r fath.

Does dim gofynion mynediad.  Serch hynny, mae'n rhaid eich bod yn gweithio yn y sector iechyd ac yn gallu cyflwyno asesiadau ysgrifenedig yn Gymraeg neu Saesneg – fodd bynnag, nid ydym yn mynnu eich bod wedi cwblhau Sgil Hanfodol neu TGAU mewn Cymraeg neu Saesneg cyn cofrestru.

## Prif Nodweddion

- Astudio Ar-lein yn unrhyw le sydd â chysylltiad rhyngrwyd sefydlog
- Cefnogaeth lawn gan diwtoriaid profiadol
- Cymhwyster Achredig
- Ariennir yn Llawn
- Chwe Mis o Hyd
- Asesiadau Wythnosol
- Llwybr dilyniant i'r Diploma Lefel 3

## Cymorth Ychwanegol (Opsiynol)

Mae cymorth ychwanegol ar gael i'r rheiny sydd am gwblhau dysgu ychwanegol er mwyn cefnogi camu ymlaen yn eu gyrfa ac mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau ar-lein, neu wyneb yn wyneb pan fydd ar gael, cyrsiau ar bynciau megis Cyflwyniadau, Ffurflenni Cais, Ysgrifennu CV, Paratoi ar gyfer Cyfweliadau, Mathemateg, Saesneg, Cymraeg a llawer mwy.

## Dyfarniad Lefel 2

12 Credyd

### Modiwl 1

Storio ac Adfer Gwybodaeth

3 Chredyd

5 Wythnos

### Modiwl 2

Ymchwilio i Wybodaeth

2 Gredyd

5 Wythnos

### Modiwl 3

**Trefnu ac Adrodd ar Ddata**

3 Chredyd

5 Wythnos

### Modiwl 4


Hanfodion mewn Gwybodeg Iechyd


2 Gredyd

10 Wythnos

# Dyfarniad Lefel 3 mewn Gwybodeg Iechyd






Mae'r cymhwyster hwn yn berffaith ar gyfer y rheiny sydd â rolau sy'n ymwneud â thrin a rheoli data a gwybodaeth electronig ac ar bapur, gan ddefnyddio TG a systemau llaw. Gallai hyn gynnwys rheoli cofnodion cleifion o ddydd i ddydd, dilysu a chodio data a dadansoddi, adrodd a defnyddio data i gefnogi ansawdd y wybodaeth.

Does dim gofynion mynediad. Serch hynny, os nad ydych wedi cwblhau 5 TGAU ar Raddau C-A* yn llwyddiannus rydym yn argymell eich bod yn cwblhau'r Dyfarniad Lefel 2 cyn cofrestru ar y cymhwyster Lefel 3 hwn.

## Prif Nodweddion

- Astudio Ar-lein yn unrhyw le sydd â chysylltiad rhyngrwyd sefydlog
- Cefnogaeth lawn gan diwtoriaid profiadol
- Cymhwyster Achrededig
- Ariennir yn Llawn
- 18 Mis o Hyd
- Asesiadau Wythnosol

Mae chwe uned orfodol sy'n rhoi cyfanswm o 17 credyd ac argymhellir eich bod yn cwblhau'r rhain o fewn 6-9 mis cyntaf eich cofrestriadau.

Hyrwyddo Arfer Da wrth Drin Gwybodaeth mewn Lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Rheoli eich perfformiad eich hun mewn amgylchedd busnes.

Adnabod gofynion gwybodaeth mewn cyd-destun iechyd.

Rheoli Gwybodeg Iechyd mewn Lleoliadau Gofal Iechyd.

Egwyddorion Rheoli Gwybodaeth a Chynhyrchu Dogfennau.

Sgiliau Cyfathrebu ar gyfer Gweithio yn y Sector Iechyd.

Sgiliau Cyfathrebu ar gyfer Gweithio yn y Sector Iechyd. Wedyn byddwch yn dewis nifer o unedau opsiynol sy'n rhoi cyfanswm o 35 credyd o leiaf.

## Modiwlau Opsiynol

Cynnal Safonau Ansawdd yn y Sector Iechyd

Iechyd Gwella Gwasanaeth yn y Sector Iechyd

Darparu, monitro a gwerthuso gwasanaeth cwsmeriaid i gwsmeriaid allanol

Dadansoddi a chyflwyno data a gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd (cysylltiedig â Dadansoddi ac adrodd ar ddata)

Cyflwyno Hyfforddiant Trwy Arddangos a Chyfarwyddo

Deall Dwyieithrwydd yn y Gwaith

Meddalwedd Arbenigol

Diogelwch TG i Ddefnyddwyr

Meddalwedd Prosesu Geiriau

Meddalwedd Taenlenni

Creu Rhaglen Gyfrifiadurol Drefniadol

Meddalwedd Cronfeydd Data

Egwyddorion Rheoli Gwybodaeth a Chynhyrchu

Dogfennau mewn Amgylchedd Busnes Cyfrannu at Wneud Penderfyniadau mewn Amgylchedd Busnes

Meddalwedd Rheoli Data

Rheoli a Gwerthuso System Wybodaeth

Egwyddorion Gweithio yn y Sector Cyhoeddus

Cyfathrebu mewn amgylchedd busnes

## Dyfarniad Lefel 4 mewn Gwybodeg Iechyd





Ar hyn o bryd mae'r cymhwyster wedi'i alinio ar gyfer y rolau canlynol, fodd bynnag mae hyn yn cael ei adolygu ac efallai bydd modiwlau eraill yn cael eu hychwanegu er mwyn cynnwys llwybrau ychwanegol i'r rheiny sy'n dymuno symud ymlaen o Lefel 3. Mae'r pedwar llwybr gyrfa a fyddai'n elwa o'r cymhwyster hwn ar hyn o bryd yn cynnwys:

**Technegydd Cymorth TGCh**

Cynorthwyo i gyflwyno cymorth TGCh. Mae'n cynnwys datrys galwadau am gymorth TG, perfformio gosodiadau, ffurfweddiadau, adleoli a dadgomisiynu caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol; canfod namau a chywiro problemau; hyrwyddo arfer da wrth ddefnyddio caledwedd a meddalwedd a diogelwch TG

**Dadansoddwr Profion TGCh**

Develops testing plans, scripts etc; Systems and Integration Testing (SIT), Operational Acceptance Testing (OAT), User Assurance Testing (UAT), Regression Testing and Performance. It might also include: hands-on testing to build application expertise and ensure project deadlines are met.

**Dadansoddwr Gwybodaeth**

Mae'n darparu cymorth dadansoddol i hwyluso gwneud penderfyniadau clinigol, datblygu gwasanaethau a rheoli perfformiad. Mae'n hwyluso ansawdd data; cyfathrebu'n effeithiol â budd-ddeiliaid; rhoi cyngor a chymorth a allai hefyd gynnwys darparu addysg a hyfforddiant i eraill.

**Uwch Arbenigwr TG**

Mae'n datblygu, cynnal a chefnogi systemau perthnasol ar gyfer y Ganolfan Gweithrediadau Cymorth Rhwydweithiau Mewnol yn ei faes ei hun ac yn unol â manylebau a gofynion gweithredol. Mae tîm y Ganolfan Gweithrediadau Cymorth Rhwydweithiau Mewnol yn gyfrifol am ddarparu, monitro, adrodd ar ddata a'i gasglu.

## Prif Nodweddion

Astudio Ar-lein yn unrhyw le sydd â chysylltiad rhyngrwyd sefydlog.

Cefnogaeth lawn gan diwtoriaid profiadol.

Cymhwyster Achredig.

Wedi'i Ariannu'n Llawn.

18 Mis o Hyd.

Asesiadau Wythnosol.

Cydnabyddiaeth APEL PCYDDS.

Gellir Dewis a Chymysgu Modiwlau hyd at werth 36 credyd.

## Modiwlau Gorfodol:

Dadansoddi ac Adrodd ar Ddata a Gwybodaeth sy'n

Gysylltiedig ag Iechyd Hyrwyddo Arfer Da wrth Drin Gwybodaeth mewn Lleoliadau Iechyd

## Modiwlau Opsiynol:

Deall Dwyieithrwydd yn y Gwaith

Cynllunio a Rheoli Prosiect Dadansoddiad

Ystadegol o Setiau Data

Profi Diogelwch Systemau Gwybodaeth

Meddalwedd Rheoli Prosiectau

Rheoli Ansawdd Cynnyrch a Gwasanaethau Digidol

Gweithredu System TG 2

Egwyddorion Rhwydweithio

Dylunio Meddalwedd

Egwyddorion Profi Diogelwch Gwybodaeth

Meddalwedd Taenlenni

Dadansoddi Data

Egwyddorion Rheoli Cofnodion Iechyd

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

200
1822 - 2022